| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad:** | **9 MAWRTH 2023** |
| **Pwnc:** | **Y STRATEGAETH GYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU / SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Dan Gôd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017), mae'n ofynnol bellach fod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Mae'r strategaeth gyfalaf yn gysylltiedig â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:-

- Cynllun y Cyngor;
- Y Strategaeth Rheoli Asedau Eiddo;
- Y Strategaeth TG, yn cynnwys y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion;
- Y Strategaeth Lleihau Carbon Sero Net;
- Y Strategaeth Gwella Hamdden;
- Y Strategaeth Moderneiddio Addysg;
- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Nid yw nifer o'r strategaethau hyn, yn cynnwys Cynllun y Cyngor, wedi'u cymeradwyo eto ac, o ganlyniad, strategaeth dros dro yw'r strategaeth gyfalaf hon. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod 2023/24 i gwblhau a chymeradwyo'r dogfennau ac yna asesu eu heffaith ar y strategaeth gyfalaf yn y tymor hwy, a bydd strategaeth gyfalaf ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024/25.

**ARGYMHELLION:**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell derbyn yr strategaeth cyfalaf i'r Cyngor Llawn

## B –Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni chafodd unrhyw opsiynau eraill eu hystyried gan fod hyn yn ofynnol o dan Gôd Darbodus CIPFA.

## C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â gofynion y Côd a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymell ei bod yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn.

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| Y Cyngor llawn fydd yn cymeradwyo'r strategaeth. | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Bydd y strategaeth gyfalaf yn llywio'r gyllideb gyfalaf flynyddol a fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth 2023. | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys strategaeth tymor hir mewn perthynas â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gael gwelliannau tymor hir i ysgolion, buddsoddiad tymor hir yn Anheddau Cyngor y CRT a chymorth tymor hir i asedau presennol y Cyngor / offer TG newydd. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut? | Na |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod rôl bwysig gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â bid Twf Gogledd Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022 – 2027, gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau i ddinasyddion. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosib y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i sicrhau bod adeiladau'n hygyrch fel bod modd i bawb gael mynediad iddynt, ac mae'r strategaeth yn clustnodi cyllid ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i unigolion ag anableddau. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi'r rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol trwy wella cyfleusterau ysgol, cynyddu nifer y tai Cyngor a'u hadnewyddu, ymhlith prosiectau eraill. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r prosiectau cyfalaf o fudd i'r Gymraeg, y Saesneg ac unigolion sy'n siarad ieithoedd eraill. Yn fwy uniongyrchol, bydd ysgolion newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu o fudd i siaradwyr Cymraeg, gan fod y rhan fwyaf o ysgolion Ynys Môn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn addysgu iaith a llenyddiaeth Saesneg. Mae'r gofynion i gefnogi Mân-ddaliadau yn helpu i warchod diwylliant amaethyddol Ynys Môn, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, a siaredir gan lawer o denantiaid. |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) Adroddiad y Swyddog Adran 151. | Amherthnasol – dyma adroddiad y Swyddog Adran 151. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi cael eu hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn gyda'r TA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) Amherthnasol – dim goblygiadau staffio. | Mae unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | Eiddo | Mae unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Mae unrhyw gynigion sydd yn effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | Sgriwtini | I'w gadarnhau. |
| 8 | Aelodau Lleol | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod. |
| 9 | Unrhyw gyrff allanol / eraill | Amherthnasol. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2023/24
Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2023/24

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023;
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2023/24 i 2024/25, y Pwyllgor Gwaith, 27 Medi 2022;
Cyllideb Cyfalaf 2023/24, Cynigion Terfynol, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023;
Cyllideb Refeniw 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023;
Cynllun y Cyngor 2023 i 2028.









# Cyngor Sir Ynys Môn

## Strategaeth Gyfalaf
## 2023/24

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Cyngor Sir Ynys Môn


# Strategaeth Gyfalaf

# 2023/24

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae’r Strategaeth Gyfalaf yn rhan allweddol o gynllunio strategol y Cyngor ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Cynllunio strategol yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i helpu i nodi beth ddylai ei flaenoriaethau a'i amcanion allweddol fod ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu gwaith ac ymgynghori sylweddol gan fod angen i'r Cyngor osod ei flaenoriaethau a thargedu ei gyllid at y gwasanaethau cywir i gwrdd ag anghenion dinasyddion Ynys Môn, a'r Ynys ei hun fel lle o arwyddocâd arbennig. Amlinellir amcanion allweddol y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn edrych ar ba asedau newydd, neu welliannau i asedau megis adeiladau'r Cyngor, ysgolion, tai, prosiectau adfywio, cyfleusterau gofal cymdeithasol, cyfleusterau hamdden, sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol, ynghyd â'i rwymedigaethau statudol niferus.

**1.2** Dengys y diagram cynllunio strategol isod mai'r man cychwyn yw Cynllun y Cyngor, a bod hwn wrth wraidd gwaith y Cyngor. Ategir hyn gan gynlluniau strategol allweddol y Cyngor, a trafodir rhai ohonynt isod. Yr haen nesaf yw'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli’r Trysorlys a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol, sydd wedi’u cysylltu’n agos iawn ac sydd oll yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys gwybodaeth a gofynion allweddol o'r holl gynlluniau hyn. Dengys y cylch hefyd ddwy haen allanol, rhaid i'r rhain fod yn gydnaws â'r holl ddogfennau strategol sydd ger eu bron.



**1.3** Daeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 i ben ddiwedd mis Mawrth 2022 ac fe'i disodlwyd gan Gynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23, cyn mabwysiadu Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer cyfnod hyd at yr etholiad Cyngor nesaf ym mis Mai 2027.

**1.4** Felly, mae'r Strategaeth Gyfalaf ymayn fyrrach o ran natur ac mae'n adlewyrchu'r gofynion cyllido cyfalaf i weithredu gweddill y Cynllun Trosiannol. Yn 2024/25, bydd y ddogfen hon yn cael ei disodli gan strategaeth gyfalaf mwy cynhwysfawr ar gyfer y tymor hir a fydd yn gysylltiedig â strategaethau a chynlluniau eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu gan y Cyngor, yn cynnwys Strategaeth Rheoli Asedau, Strategaeth Addysg ayb.

**1.5** Dyhead y Cyngor ar gyfer Strategaeth Gyfalaf Ynys Môn yw y bydd nid yn unig yn cynllunio ar gyfer y tymor byr a chanolig, ond ei fod yn bwriadu cynllunio ar gyfer y tymor hir - 20 mlynedd. Gall asedau'r Cyngor gostio symiau sylweddol o arian sydd, yn gyfnewid am y buddsoddiad, yn tueddu i bara blynyddoedd lawer. Mae canolbwyntio ar y tymor hir yn bwysig, nid yn unig oherwydd hirhoedledd asedau'r Cyngor, ond gall cynlluniau tymor hir anelu at newid mwy trawsnewidiol a sicrhau bod cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol. Mae rhai amcanion sydd mor bwysig ac sy'n gofyn am newidiadau sylweddol, megis targedau Carbon Isel yn arwain at darged Di-Garbon net y sector cyhoeddus erbyn 2030, i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd y newid hwn yn dechrau nawr gyda phrosiectau cyfalaf yn integreiddio dewisiadau amgen Carbon Isel a chydag asedau penodol, megis cerbydau trydan, ond mae'r targedau hefyd yn gofyn am newid trawsnewidiol parhaus, tymor hir. Mae Strategaeth Gyfalaf yma, 2023/24, wedi'i chyfyngu o ran ei hamcanion tymor hir tra bod y Cyngor yn ailgyfeirio ei hun ar ei daith allan o'r Pandemig. Bydd Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn rhoi golwg tymor hir mwy sylweddol gyda chymorth Cynllun newydd y Cyngor 2022/27 ac wrth i normal newydd Ynys Môn ddod i rym.

**1.6** Mae gwaith llywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â Phrosesau Pennu Cyllideb Refeniw a Chyfalaf a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo.

# 2 Sut mae'r Strategaeth yn cydweddu â dogfennau eraill

## 2.1 Cynllun y Cyngor

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn y tymor canol, cyfnod o bum mlynedd fel arfer. Rhaid i bob strategaeth a chynllun arall fod yn gydnaws â Chynllun y Cyngor, fel y dangosir yn y cylch strategol yn 1.2. Mae Adran 1 uchod yn amlygu bod y cynllun pum mlynedd diweddaraf wedi dod i ben ym mis Mawrth 2022, a bod Cynllun Trosiannol ar gyfer 2023/24 wedi'i gyhoeddi wrth i'r Cyngor ddechrau symud ymlaen fel mae Covid-19 yn dod yn glefyd mwy endemig. Y tri amcan strategol, allweddol yn y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2023/24 yw:-

**A.** Ailfywiogi'r economi leol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol.
**B.** Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys, tra'n gwarchod ein hasedau a'n cymunedau.
**C.** Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys.

https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-Trosiannol/Cynllun-Trosiannol-Ynys-Mon.pdf

Un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, newid a / neu uwchraddio asedau presennol. Mae nifer o ddogfennau strategol allweddol eraill yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn pennu sut bydd yr Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n cael effaith ar y Cyngor.

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 yn amlygu rôl bwysig y Strategaeth Gyfalaf a phrosiectau cyfalaf wrth gyflawni tri amcan strategol y Cyngor. At ei gilydd, mae pedwar ar hugain o dasgau wedi'u rhestru ar draws y tri amcan. Mae hanner y rhain yn brosiectau cyfalaf, gyda'r rhan fwyaf yn helpu i gyflawni amcanion A a C. Mae'r tabl isod yn dangos y prosiectau cyfalaf a grybwyllir yn benodol yn y Cynllun Trosiannol ar draws y tri amcan ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r gwaith sydd ei angen er mwyn cwblhau pob tasg:-

| Amcan y Cynllun Trosiannol | Tasg | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| Ailfywiogi'r economi lleol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol | Adeiladu chwe uned fusnes newydd ar Barc Busnes Bryn Cefni, Llangefni a pharatoi chwe plot i'w gwerthu. | Ar darged i gyflawni'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. |
| | Adeiladu saith uned fusnes newydd ym Mhenrhos, Caergybi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. | Ar darged i gyflawni'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. |
| | Cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel "Porth" rhyngwladol allweddol trwy weithio gyda phartneriaid i: atgyweirio'r Morglawdd yn sylweddol; datblygiad y Porthladd, gan gynnwys adennill tir; Hwb Hydrogen Caergybi; gwelliannau i'r orsaf. | Gwaith yn parhau a phrosiectau'n dal i gael eu datblygu. |
| | Cyflawni prosiectau gydag unrhyw elfennau cyfalaf a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn, er enghraifft, unedau busnes newydd posibl. | |
| | Gweithredu prosiectau cyfalaf a fyddai'n cefnogi cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru (prosbectws Adfer Covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu ein heconomi i adfer yn y tymor byr. | Gwaith wedi cychwyn i gyflawni prosiectau ond mae hwn yn brosiect tymor hir. |
| | Targedu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus a chyflawni unrhyw brosiectau gwyrdd cyfalaf i barhau i gyflawni fel adferiad gwyrdd, cynaliadwy ac i wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. | |
| | Gweithredu prosiectau cyfalaf sy'n helpu i symud y Rhaglen Ynys Ynni yn ei blaen, megis y rhai sy'n cyd-fynd ag ymrwymiadau newid hinsawdd ac ynni'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. | |
| Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys tra'n gwarchod ein hasedau | Buddsoddi i wella ansawdd a mwynhad ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Nant y Pandy a'r isadeiledd morwrol er budd trigolion lleol ac ymwelwyr. | Ar darged i gyflawni'r gwaith ym Mharc Gwledig y Morglawdd a Nant y Pandy erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Gwaith wedi cychwyn ar yr isadeiledd morwrol. |
| Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hollbwysig, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys | Dod o hyd i gartrefi parhaol i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro. | Mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol yn 2021 – 2023, ac mae hyn wedi ein hatal rhag gweithredu'r dasg yn llawn. |
| | Adeiladu 83 o gartrefi ynni effeithlon newydd gyda pherfformiad ynni A, yn unol â Strategaeth Carbon Isel y Cyngor, a chynyddu anheddau'r Cyngor a chartrefi fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai unigolion. | Mae gan y Cyngor brosiectau ar y gweill i adeiladu 110 eiddo newydd ledled yr Ynys. |
| | Codi rhagor o Gartrefi Clyd ar Ynys Môn yn Rhos-y-bol, Caergybi a Llangristiolus i gynnig gwasanaethau seibiant a dydd i blant ag anableddau. | Eiddo wedi cael eu prynu ac wrthi'n cael eu huwchraddio. |

Dyma'r prosiectau sydd wedi'u henwi'n uniongyrchol yn y Cynllun Trosiannol. Fodd bynnag, mae prosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2023/24 nad ydynt wedi'u henwi yn y Cynllun Trosiannol ond sy'n bwysig ac yn cyfrannu at yr amcanion hyn, megis a'r gwaith lliniaru llifogydd fydd yn helpu i gyflawni amcan B i helpu i gefnogi poblogrwydd cynyddol yr Ynys. Mae yna, hefyd, brosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft sy'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gyfalaf, gan gynnwys y rhai a amlygwyd mewn cynlluniau strategol eraill, megis y gofyn i fuddsoddi yn asedau'r Cyngor bob blwyddyn.

## 2.2 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT)

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddau eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn nodi sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca'n rhan allweddol o'r strategaeth gyllido. Mae'r manylion ynghylch sut yr eir ati i fenthyca ac yna ei reoli hefyd wedi'i nodi yn y DSRhT.

## 2.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r rhan sylfaenol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf, a sut bydd hyn yn cael ei gydbwyso â'r cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i lywio'r CATC.

Mae monitro cyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad a materion ariannol ar gyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth. Nodir rhai o'r rhain yn risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad a Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn llywodraethu sut y caiff perfformiad a risg eu rheoli.

## 2.4 Cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau statudol gweithredol, penodol i wasanaethau

Er mai Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen strategol allweddol, ategir hyn gan nifer o gynlluniau gweithredol, manylach, allweddol, y mae llawer ohonynt yn amlygu bod gwariant cyfalaf yn allweddol i gyflawni amcanion y cynllun priodol. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn seiliedig ar waith ymchwil, nodi'r sefyllfa bresennol, dadansoddiad i nodi anghenion a chynlluniau o'r modd y mae'r gwasanaeth yn anelu at ddiwallu'r anghenion ac ymgynghori â chydranddeiliaid.

**Cynllun Tuag at Sero Net 2022/25**

Mae'r Cynllun Tuag at Sero Net yn un o brif gynlluniau strategol y Cyngor. Pwrpas y strategaeth yw datblygu gwaith y Cyngor er mwyn iddo gyrraedd ei darged sero net erbyn 2030. Cafodd y targed ei gosod gan y Cyngor wedi iddo gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2020. Y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymry ar gyfer Cymru gyfan yw sero net erbyn 2050, a sefydliadau'r sector gyhoeddus erbyn 2030.

Mae gan y cynllun dri chwmpas, ac mae'r ddau gyntaf yn haws gan eu bod yn ymwneud â dewisiadau glanach o ran cyfleusterau a reolir gan y Cyngor, megis swyddfeydd, ysgolion, cerbydau ac ati. Rhwystr mawr i'r ddau gwmpas hyn fydd dod o hyd i ddigon o gyllid i gyrraedd y targed. Mae Cwmpas 3 yn fwy heriol gan ei fod yn ymwneud â dewisiadau y mae eraill yn eu gwneud, megis gweithwyr cyflogedig wrth iddynt gynnal busnes y Cyngor ac a yw tenantiaid tai Cyngor neu eiddo buddsoddi yn dilyn canllawiau byw'n lân.

Mae gan y strategaeth gyfalaf hon, felly, amcan allweddol bod yn rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried sut maent yn cyfrannu (positif neu negatif) tuag at targed sero net y Cyngor. Bydd llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau sero net yn ymwneud â gwariant cyfalaf, ac mae'r prosiectau yma yn debygol o fod yn rhan o raglenni cyfalaf y dyfodol. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn

chwarae rhan bwysig o'r agenda hollbwysig hwn.

**Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol**

Mae Crynodeb Gweithredol y cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tir ac Adeiladau 2021 i 2026 yn nodi fel enghraifft “mae angen cyllidebau cyfalaf a refeniw sylweddol i gynnal a chadw adeiladau i'w cadw'n ddiogel ac yn y cyflwr gorau posibl ... mae gofyn cael oddeutu £27m o gyfalaf cynnal a chadw, yn seiliedig ar arolygon cyflwr a gwblhawyd yn 2019/20…Mae asedau’r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni blaenoriaethau a gwasanaethau’r Cyngor yn effeithiol…Mae’r ymdrech i ddod yn Gyngor sero net ..yn unol â disgwyliadau’r Llywodraeth, yn golygu bod yn rhaid i ni fuddsoddi i wella ein hasedau presennol a chodi adeiladau carbon niwtral newydd… ”. Er mai fersiwn ddrafft yw’r cynllun strategol hwn, mae’n amlygu cyflwr asedau’r Cyngor yn sgil arolygon yn 2019/20. Felly, un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf yw bod cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu bob blwyddyn ar gyfer gwelliannau i adeiladau’r Cyngor.

**Polisi Rheoli Asedau Stadau Mân-ddaliadau drafft y Cyngor 2021/30**

Mae mân-ddaliadau’r Cyngor yn cynnwys tua 5,800 erw, yn amrywio o 2 erw i 170 erw wedi’u parseli i 92 o denantiaethau. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y polisi gyda chydranddeiliaid, gan gynnwys tenantiaid. “Prif nod y polisi yw cynnal a chreu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol tymor byr a hir i gyfrannu at ddiogelu llesiant a chynaladwyedd cymunedau gwledig Ynys Môn”. Mae’r mân-ddaliadau yn helpu i gyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan y Cyngor a Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru. Mae amaethyddiaeth wedi ei wreiddio yn hanes a diwylliant Môn ac, felly hefyd, yr Iaith Gymraeg a siaredir gan nifer o denantiaid y Stad. Mae amcan masnachol i sicrhau bod y stad yn parhau i sicrhau enillion ariannol cynaliadwy. Fodd bynnag, oherwydd ei amcanion ehangach, nid yw'r mân-ddaliadau yn cael eu dosbarthu fel eiddo buddsoddi, sy'n ymwneud ag eiddo a ddelir ar gyfer casglu incwm a chynyddu gwerth yr eiddo’n unig. Er mwyn cefnogi amcanion y mân-ddaliadau a’u cyfraniad i Gynllun y Cyngor, mae’r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf yn y mân-ddaliadau ar gyfer gwaith adnewyddu. Mae’r strategaeth uchod yn amcangyfrif bod angen £2.9m o gyllid cyfalaf dros y cyfnod 2021-30. Mae £1.9m o hwn ar gyfer systemau gwresogi, adnewyddadwy, carbon isel ac effeithlonrwydd ynni drwy insiwleiddio mwy ar eiddo. Argymhellir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o werthu unrhyw Stad Mân-ddaliadau yn cael eu clustnodi i'w hail-fuddsoddi yn y Stad. Caiff y tîm mân-ddaliadau ei annog i wneud cais am gyllid allanol, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â systemau gwresogi, adnewyddadwy, carbon isel a phrosiectau effeithlonrwydd ynni.

**Strategaeth Ysgolion Digidol 2022-2024**

Cyflwynwyd Strategaeth Ddigidol gyntaf yr Awdurdod ar gyfer Ysgolion i’r Pwyllgor Gwaith a’i chymeradwyo ar 13 Rhagfyr 2021. Mae hyn yn allweddol i gefnogi blaenoriaethau addysgol y Cyngor ac i fodloni’r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae’r strategaeth yn amlygu nod cyffredinol y Cyngor i greu Ynys Môn sy’n iach a llewyrchus, lle gall teuluoedd ffynnu, sy’n cynnwys sicrhau bod pobl Ynys Môn yn cyflawni eu potensial tymor hir. Mae cymhwysedd digidol yn allweddol i hyn ac mae wedi’i gynnwys fel sgil trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y mae ei rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd wedi cyllido’r rhan fwyaf o’r isadeiledd a Chromebooks i ddisgyblion, a llwyfan digidol Hwb ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghymru, wedi bod yn allweddol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y Strategaeth Ysgolion Digidol.

Blaenoriaethau allweddol y strategaeth yw: bydd y Cyngor yn symud yn llwyr i HWB ac yn gwneud defnydd ohono, bydd digon o isadeiledd rhwydwaith ar gyfer pob ysgol a bydd y Cyngor yn darparu’r caledwedd sydd ei angen ar ysgolion ac ystafelloedd dosbarth fel bod modd defnyddio technolegau arloesol fydd yn cefnogi dysgwyr. Cyflwynwyd £0.343m o grant gan Lywodraeth Cymru a chyllidwyd caledwedd, a gostiodd £1.536m, gan Lywodraeth Cymru, rhwng 2019/20 a 2021/22. Heb y cyllid hwn ac isadeiledd, meddalwedd ac offer HWB, ni fyddai’r ysgolion wedi gallu

sicrhau y gallai'r disgyblion ddysgu o gartref pan oedd yr ysgolion ar gau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion oherwydd Covid-19.

Mae yna ganlyniadau refeniw i'r Strategaeth Ysgolion Digidol i gefnogi ysgolion ond hefyd ofynion cyfalaf yn y dyfodol. Yn gyfnewid am y cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd gyntaf y prosiect, roedd hyn yn amodol ar y Cyngor yn cyllido caledwedd newydd ar ddiwedd oes defnyddiadwy presennol Chromebooks, caledwedd ac isadeiledd TGCh. Mae hyn yn amrywio, yn dibynnu ar oes ddefnyddiol y caledwedd, er enghraifft, costiodd y rhwydwaith ar gyfer yr ysgolion £890k yn 2019, a bydd angen ei newid ymhen 10 mlynedd, felly, disgwylir bid am gyllid cyn 2029. Mae'n debygol y bydd effaith am dymor hyd yn oed yn hwy gan y bydd angen newid y Chromebooks neu dechnoleg gyfatebol bob chwe blynedd.

**Strategaeth Rheoli Asedau Tai Cyngor (Cyfrif Refeniw Tai) 2018-2023 a Chynllun Busnes y CRT 2022**
**1 i 2052**

Rheolir Tai Cyngor gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sy'n rhan sylweddol o'r gwasanaeth Tai. Mae'r CRT yn endid hunangyllido, ond mae'n rhan hanfodol o'r Cyngor sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni nifer o amcanion Cynllun y Cyngor mewn perthynas â thai. Adroddir ar bob agwedd o gyllid ar wahân i weddill cyllid y Cyngor (Cronfa'r Cyngor) i sicrhau bod y CRT (Cronfa CRT) yn cyllido ei wariant a bod incwm dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc tai. Gweledigaeth y strategaeth hon yw darparu "Cartrefi o Ansawdd: cymunedau cynaliadwy".

Mae'r chwe blaenoriaeth y cynllun 30 mlynedd presennol yn cyfrannu at amcanion allweddol y Cyngor. Y blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gyfalaf, ac a gyflawnir yn rhan o'r rhaglen gyfalaf ac a fydd yn arwain at raglen tymor hir o'r gwaith isod, yw:-

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy ar draws Ynys Môn – mae'r CRT yn parhau i gynyddu ei stoc dai trwy dargedau bob blwyddyn i godi tai newydd a phrynu tai Cyngor yn ôl. Nid yw'r Cyngor bellach yn gwerthu Tai Cyngor ers diddymu'r cynllun Hawl i Brynu.

- Rhwng 2015/16 a 2021/22 cafwyd cynnydd o 188 yn stoc dai'r Cyngor (prynwyd 82 yn ôl a chodwyd 106 eiddo newydd). Yn 2023/24, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu 125 uned pellach (prynu 15 yn ôl a chodi 110 eiddo newydd).

- Annog adfywiad ystadau, cynyddu cyfranogiad tenantiaid a diogelwch cymunedol – yn ogystal â chynyddu nifer y Tai Cyngor, mae'r CRT yn gwneud gwaith adnewyddu bob blwyddyn, megis darparu ceginau newydd, toi a gwaith gwella angenrheidiol i ymestyn oes y tai. Mae hyn yn arwain at adfywio stadau'r Cyngor. Mae'r CRT yn gweithio gyda thenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn cymryd rhan i ddylanwadu ar y gwaith ar y stad.

- Mae'r CRT hefyd yn anelu at roi llety i unigolion ag anghenion penodol, megis pobl â phroblemau iechyd meddwl, symud pobl ymlaen o lety brys i dai cymdeithasol a phobl hŷn, megis llety Llawr y Dref. Mae'r CRT hefyd yn bwriadu datblygu cyfleuster tai gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu 55 uned.

- Gellir datblygu nod y CRT o fynd i'r afael ag effeithlonrwydd, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd drwy ei adeiladau newydd a'u hadnewyddu.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) – Cynllun Busnes Cynllun Twf Gogledd Cymru 2020/23**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i'r Cyngor. Wrth weithio gyda'n gilydd ar nodau cyffredin gellir cyflawni mwy ac arwain at arbedion effeithlonrwydd, gan y gellir lleihau dyblygu gwaith. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a phartneriaid masnachol eraill a bydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol fel bod pobl

Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

Mae tair egwyddor allweddol y Cynllun Twf fel a ganlyn:-

- Gogledd Cymru ddoeth – yn canolbwyntio ar arloesi a sectorau economaidd gwerth uchel i hybu perfformiad economaidd;

- Gogledd Cymru gydnerth – yn canolbwyntio ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf diwydiannol;

- Gogledd Cymru gysylltiedig – yn canolbwyntio ar wella trafnidiaeth ac isadeiledd digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi fewn iddi.

Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau £240m i gyllido'r Cynllun Twf gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog a bydd yn dod i law dros gyfnod o 15 mlynedd. Nod y Cynllun Twf yw ceisio lleihau'r bwlch cynhyrchiol parhaus rhwng Gogledd Cymru a'r DU, er mwyn adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a chynhwysol ar gyfer Gogledd Cymru.

Bydd bwlch cyllido tymor canolig (llif arian negyddol) a reolir gan yr awdurdod arweiniol, ond gyda chyfraniadau blynyddol cyfatebol gan bartneriaid. Amcangyfrifir y bydd yr hyn y mae Ynys Môn yn ei fenthyca tuag at y bwlch cyllido rhwng £0.700m i £1.00m. Byddai hyn yn arwain at dâl DRI blynyddol o rhwng £0.047m a £0.067m bob blwyddyn am y 15 mlynedd. Yn ogystal, bydd gofyn i Ynys Môn gyfrannu tuag at gyllideb graidd ac atodol y Bwrdd bob blwyddyn.

Cyfanswm y proffil cyllid cyfalaf fesul rhaglen yw:-

**Tabl 1 : Crynodeb Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru**

| Maes Rhaglen | Cyfraniad Llywodraeth (£m) | Cyfraniad Cyhoeddus (£m) | Cyfraniad Preifat (£m) | Cyfanswm Costau'r Rhaglen (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 13.0 | 26.5 | 0.0 | 39.5 |
| Cysylltedd Digidol | 37.0 | 3.1 | 1.6 | 41.7 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 24.5 | 12.4 | 4.4 | 41.3 |
| Tir ac Eiddo | 79.1 | 1.9 | 274.4 | 355.4 |
| Ynni Carbon Isel | 86.4 | 140.4 | 441.7 | 668.5 |
| **Cyfanswm** | **240.0** | **184.3** | **722.1** | **1,146.4** |

Mae 14 o brosiectau cyfalaf trawsnewidiol, ac mae pob un ohonynt o fudd i Ogledd Cymru gyfan.

Y prosiectau sydd â chysylltiad mwy uniongyrchol ag Ynys Môn yw:-

- Safleoedd ac Adeiladau – bydd rhaglen y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â phrinder safleoedd ac adeiladau yng Ngogledd Cymru a buddsoddiad i alluogi twf Porthladd Caergybi;

- mae cynllun Porth Caergybi yn gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag asedau sydd wedi dod i ben ac sy'n hanfodol i weithrediad y porthladd ac i gynyddu'r capasiti ar gyfer symudiadau cerbydau a llongau ar gyfer traffig teithwyr a nwyddau;

- bydd y prosiect cysylltedd digidol yn cynyddu band eang cyflym a chysylltedd symudol ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn o fudd i'r rhanbarth cyfan a, chan fod y pedair sir Gogledd-Orllewin Gogledd Cymru ymhlith y 25% isaf o ardaloedd y DU o ran derbyn band eang cyflym iawn, bydd hyn yn teimlo fel gwelliant mwy sylweddol i Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych;

- prosiect Morlais – adeiladu'r isadeiledd sy'n cysylltu parth Morlais â'r system grid trydan a pharatoi'r safle ar gyfer datblygiadau sector preifat gan fuddsoddi i brydlesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau llanw.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd https://uchelgaisgogledd.cymru/

## 2.4 Gofynion Statudol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, ynghyd â'r holl gyrff cyhoeddus eraill, gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn deddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ar gyfer pobl a'n planed. Bydd hyn yn sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd â'r cenedlaethau presennol. Mae'r Ddeddf yn annog cydweithio i gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae Cynllun Trosiannol y Cyngor yn amlygu bod tri amcan y cynllun yn cydblethu â Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Cyngor, gyda datganiad cenhadaeth y Cyngor ar gyfer llesiant yn nodi "gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu".

Bydd y Strategaeth Gyfalaf hon yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r nod pwysig hwn trwy gyfeirio cyllid at gynlluniau sy'n cydymffurfio â Chynllun y Cyngor yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn adeiladau, gwelliannau i ysgolion, prynu cerbydau trydan, buddsoddi mewn dewisiadau carbon isel fel generaduron pympiau gwres, codi Tai Cyngor newydd gyda gwres carbon isel ac ati, oll yn cyfrannu at les, nawr ac ymhell i'r dyfodol.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn torri ar draws holl wasanaethau a gwaith y Cyngor. Gyda'r Strategaeth Gyfalaf, mae modd i fwy o bobl gael mynediad trwy wneud gwaith addasu penodol mewn ysgolion, adeiladau eraill y Cyngor a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd gofyn i adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu ac adeiladau newydd gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf i helpu'r Cyngor i redeg gwasanaethau statudol i sicrhau bod yr asedau a ddefnyddir i redeg gwasanaethau statudol megis Gofal Cymdeithasol, Ysgolion, Tai ac ati, yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

Yn y diagram isod, crynhoir sut mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gysylltiedig â strategaethau allweddol a'r broses o bennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol:-

# Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol allweddol

**Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac wedi'u cysylltu â'i gilydd i helpu i bennu lefel fforddiadwy o adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ei hangen i gyflawni blaenoriaethau allweddol Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Mae'r rhain, hefyd, yn cyflwyno fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau'r Cyngor yn ariannol gadarn.**

## Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i nodi'r adnoddau tebygol y bydd eu hangen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyn am yr adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Y Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun Trosiannol 2022/23 a Chynllun y Cyngor 2023/27. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw, a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cael effaith ar y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol ac, yn eu tro, mae'r rhain yn cael effaith ar y Strategaeth Gyfalaf.

## Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

## Mae'r Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT
Bob blwyddyn, caiff y costau cyllideb cyfalaf refeniw eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

## Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol

– Mae lefel y gwariant a benthyca cyfalaf yn cael effaith ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

## 3 Amcanion y Strategaeth Gyfalaf

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor, y cynlluniau gweithredol / statudol allweddol a grybwyllwyd uchod a gofynion statudol yn rhoi cyfeiriad clir ar yr hyn y dylai blaenoriaethau’r Strategaeth Gyfalaf fod er mwyn helpu’r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau. Amcanion y Strategaeth Gyfalaf, felly, yw:-

Rhaid i brosiectau cyfalaf ymwneud ag asedau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor a strategaethau gweithredol allweddol.

Bob blwyddyn, wrth adolygu'r strategaeth hon a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyranu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol.

Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy.

Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn llawn. Mae hon yn rhaglen sylweddol a fydd yn arwain at welliannau cyfalaf i ysgolion Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu neu adeiladau newydd yn y tymor hir.

Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried y targedau carbon sero net a defnyddio dulliau amgen glân lle, yn draddodiadol, y defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau creu carbon.

Bob blwyddyn, bydd derbyniadau cyfalaf a dderbynnir o werthu Mân-ddaliadau'r Cyngor yn cael eu clustnodi ar gyfer adnewyddu mân-ddaliadau y mae'r Cyngor yn eu cadw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr eiddo’n addas ar gyfer y tymor hir.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda’i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.

Mae angen ymgynghori'n flynyddol â chydranddeiliaid a dinasyddion Ynys Môn i gael eu barn ar unrhyw brosiectau cyfalaf newydd arfaethedig.

## 3. Egwyddorion sy'n helpu i gynorthwyo gwaith cyflawni'r amcanion allweddol uchod:-

**3.1** Bod y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn ymrwymiad sylweddol tymor hir i godi a / neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Ynys Môn yn addas i bara ac yn bodloni'r gofynion tymor hwy. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn helpu'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon, hefyd, yn bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf o werthu ysgolion gwag, gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthyca â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiad mewn asedau cyfredol a newydd sydd eu hangen i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor a sicrhau bod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu cynnal.

**3.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido'r gwaith gwella mawr i offer TG, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor neu gael rhai newydd yn eu lle.

**3.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

**3.4** Bod rhyw gymaint o waith gwella ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrannir yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau isafswm gwerth contract, faint o gyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn sail i holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.

**3.5** Bydd prosiectau sydd angen rhyw gymaint o gyllid cyfatebol er mwyn gallu defnyddio cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul achos gan y Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth, gydag argymhelliad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad a ddylid ymrwymo cyllid yn dibynnu ar y prosiect, sut y mae'n ffitio i mewn i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a chyllid grant.

**3.6** Er mwyn lleihau effaith refeniw'r rhaglen gyfalaf h.y. costau cyllido cyfalaf o'r llog taladwy a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n creu cyllid i helpu i ad-dalu benthyciadau, ni fyddir yn defnyddio benthyciadau digefnogaeth oni bai bod:-

- y prosiect wedi'i gymeradwyo yn un Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu;
- y prosiect yn brosiect buddsoddi i arbed, fydd yn talu'r costau cyllido cyfalaf h.y. llog taladwy a Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI);
- y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol o 75%, o leiaf, a bydd yn helpu i gyflawni o leiaf un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor.

**3.7** Lle bo balansau arian parod yn caniatáu, bydd benthyca gwirioneddol yn cael ei ohirio a bydd balansau arian parod yn cael eu defnyddio i oedi a chynilo llog taladwy a thaliadau DRI i refeniw. Gelwir hyn yn fenthyca mewnol. Pan fydd angen ailgyflenwi balansau arian parod, bydd y benthyciad yn cael ei gymryd allan a bydd y benthyca mewnol yn cael ei allanoli. Lle bydd llog yn debygol o godi'n sylweddol, dylid allanoli benthyca mewnol i leihau risg, ond nid cyn y bydd ei angen.

**3.8** Yn y pen draw, bydd cyllid cyfalaf, ac eithrio grantiau a ddyfarnwyd ar gyfer prosiectau penodol, yn cael ei ddyrannu i leihau costau cyllido cyfalaf ac i sicrhau bod gan y rhaglen gyfalaf yr hyblygrwydd i wneud y mwyaf o gyllid. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn awdurdodau lleol. Gallai'r cyllid gwirioneddol a ddyrennir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fod yn wahanol i'r hyn a adroddwyd fel rhan o'r gyllideb gyfalaf. Bydd grant cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn gyntaf i sicrhau y caiff hwn ei wario'n llawn ar ddiwedd y flwyddyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cario'r grant ymlaen. Mae hyblygrwydd gyda chyllid yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido, megis rheoli grantiau penodol a ddyfarnwyd yn chwarter olaf y flwyddyn, sy'n caniatáu defnyddio'r grant penodol ar wariant cyfalaf arall a bennir yn lleol yn ystod y flwyddyn os na ellir ei wario ar amodau grant penodol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ar y sail bod y Cyngor yn dyrannu cyllid o raglen y flwyddyn nesaf i gyllido'r prosiectau penodol y dyfarnwyd y cyllid gwreiddiol ar eu cyfer.

# 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a Phroses y Rhaglen Gyfalaf

## 4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y pwysau cyllidebol a ddisgwylir, Cynllun Rheoli'r Trysorlys a'r Cynlluniau Gweithredol a drafodir uchod. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn. Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol lle mae oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn ddiriaethol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu'n anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol o £10k neu fwy yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. £10k yw lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol llai na £10k yn cael eu codi ar refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ildio'r de minimis os yw'n briodol.

## 4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

### 4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio

Wrth benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, rhaid i'r bidiau fod, nid yn unig yn fforddiadwy, ond bod o gymorth hefyd i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd a diweddaru gwybodaeth am brosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a nodir isod) a byddant yn cynnwys yr holl oblygiadau refeniw parhaus a fydd yn codi o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Drwy sgorio arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd, ceir elfen o wrthrychedd a sicrheir bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, felly, mae mwy o bwysau wedi'i roi i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Wedyn bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau wrth ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.


| **Meini Prawf** | **Sgôr** |
|---|---|
| Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol | 20 |
| Bydd y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol | 10 |
| Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw | 10 |
| Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Gorfforaethol | 10 |
| **Cyfanswm y sgôr uchaf** | **50** |

Mae’r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

### 4.2.2 Amserlen

Mae’r broses o gymeradwyo’r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refeniw a datblygu’r Rhaglen Gyfalaf. Mae’r amserlen ar gyfer datblygu’r Rhaglen Gyfalaf wedi’i chrynhoi isod:-

hnnC




### 4.2.3 Awdurdodi

Y Cyngor llawn sy’n gyfrifol am gadarnhau’r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn, a hynny’n seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy’n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau yn rhan o’r adroddiadau chwarterol i’r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau sy’n codi yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido’n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt yn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os bydd prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy’n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i’r prosiectau fod yn rhai sy’n helpu’r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

### 4.2.4 Monitro'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf

Bob chwarter, caiff adroddiad Monitro Cyfalaf ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn ystyried gwariant hyd yma, gwariant a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn a naratif i egluro cynnydd neu ddiffyg cynnydd cynlluniau.

# 5. Edrych yn Ôl – Cyflawniadau'r Strategaeth a'r Rhaglenni Cyfalaf 2017/18 i 2021/22

Mae'r Cyngor wedi gwario bron i £160m ar brosiectau cyfalaf dros y cyfnod pum mlynedd uchod. Cyllidwyd £79m o grantiau cyfalaf, sef 49.36% o gyfanswm y gwariant cyfalaf. Mae hyn yn dangos gwerth cynnwys cyllid grant sylweddol yn un o amcanion y Strategaeth Gyfalaf. Mae'r gwasanaethau â'r gwariant mwyaf yn dangos bod prosiectau cyfalaf yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2017/2022. Tai, gan gynnwys tai i bobl fregus, Dysgu Gydol Oes i ddarparu asedau i helpu rhoi gwasanaethau i helpu unigolion i gyflawni eu potensial, a'r gofyniad cyfreithiol i adnewyddu priffyrdd a'r flaenoriaeth i wella'r Ynys. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| **Gwasanaeth** | **2017/18**<br>£'000 | **2018/19**<br>£'000 | **2019/20**<br>£'000 | **2020/21**<br>£'000 | **2021/22**<br>£'000 | **Cyfanswm**<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,224 | 1,108 | 1,252 | 1,212 | 1,019 | 5,815 |
| CRT Tai | 9,291 | 9,028 | 11,812 | 12,622 | 9,723 | 52,476 |
| Dysgu Gydol Oes | 6,318 | 7,233 | 2,982 | 3,878 | 8,833 | 29,244 |
| Economaidd ac Adfywio | 788 | 4,017 | 2,993 | 2,714 | 2,081 | 12,593 |
| Priffyrdd | 6,004 | 6,055 | 7,176 | 5,382 | 5,290 | 29,907 |
| Rheoli Gwastraff | 66 | 84 | 180 | 3,213 | 2,270 | 5,813 |
| Eiddo | 786 | 697 | 990 | 2,405 | 2,140 | 7,018 |
| Trawsnewid | 587 | 448 | 1,297 | 771 | 794 | 3,897 |
| Cyflog Cyfartal - Cyfarwyddeb Cyfalafu | 2,566 | - | - | - | - | 2,566 |
| Cynllunio | 1,031 | 1,839 | 755 | 52 | 384 | 4,061 |
| Gwasanaethau Oedolion | 694 | 168 | 577 | 880 | 923 | 3,242 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **29,355** | **30,677** | **30,014** | **33,129** | **33,457** | **156,632** |
| | | | | | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | **11,801** | **16,629** | **18,156** | **18,948** | **22,486** | **88,020** |
| | | | | | | |
| **Canran y costau cyfalaf a gyllidir gan Grantiau** | **40.20%** | **54.21%** | **60.49%** | **57.19%** | **67.21%** | **56.20%** |

# 6. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol a Chyllido

## 6.1 Cyfyngiadau Refeniw

**6.1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol cychwynnol (CATC) ar gyfer 2023/24 i 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2022. Roedd hyn yn cydnabod yr anhawster gyda chynllunio ariannol y tu hwnt i un flwyddyn oherwydd diffyg rhagolygon cyllideb tair blynedd o'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. Mae economi fregus y DU, diffyg twf, y posibilrwydd o ddirwasgiad a dyledion cyhoeddus uwch o lawer yn golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac o ganlyniad bydd rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel cyllid refeniw yn y tymor byr a gwneud arbedion refeniw yn y tymor hwy.

**6.1.2** Er mwyn ceisio rheoli chwyddiant, mae Banc Lloegr wedi cynyddu cyfradd sylfaenol y banc yn raddol o 0.25% ar ddechrau 2022, i'w lefel bresennol, sef 4.0% (Chwefror 2023). Rhagwelir y bydd y gyfradd yn parhau i gynyddu yn gynnar yn 2023, nes cyrraedd 4.5% cyn dechrau gostwng yn raddol yn hwyrach yn 2023 ac yn gynnar yn 2024. Mae mwyafrif benthyciadau'r Cyngor yn fenthyciadau cyfradd sefydlog ac, o ganlyniad, nid yw unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn effeithio ar y gyllideb refeniw, ond bydd unrhyw fenthyciadau newydd ar gyfradd llog uwch. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb refeniw drwy gynyddu enillion y Cyngor ar ei fuddsoddiadau. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu'r llog y mae'n disgwyl ei dderbyn o £50k yn 2023/24 i £1m yn 2023/24.

**6.1.3** Mae'r setliad refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn golygu cynnydd o 7.9% yn y cyllid sydd ar gael i Ynys Môn, sydd yn well na'r disgwyl, ond sydd yn annigonol yng ngoleuni'r pwysau chwyddiant a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau y bydd y Cyngor yn ei wynebu yn 20023/24. Bydd rhaid defnyddio £1.8m o falansau cyffredinol i sicrhau cyllideb refeniw gytbwys.

**6.1.4** Nid yw'r CATC diwygedig yn awgrymu y bydd y sefyllfa o ran y gyllideb refeniw yn gwella yn 2024/25 ac felly bydd rhaid mynd i'r afael â bwlch cyllido ychwanegol o £3m ynghyd â'r £1.8m a gyllidwyd drwy gronfeydd wrth gefn yn 2023/24. Mae'r pwysau parhaus ar y gyllideb refeniw yn cyfyngu gallu'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf ychwanegol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn neu fenthyca ychwanegol, gan y bydd ei gronfeydd wrth gefn yn lleihau wrth gefnogi'r gyllideb refeniw a bydd benthyca ychwanegol yn cynyddu'r taliadau llog a'r ddarpariaeth refeniw isaf sydd ei angen.

## 6.2. Cyfyngiadau Cyllido Cyfalaf

**6.2.1** Mae'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys manylion y cyllid cyfalaf a ddarparwyd i'r Cyngor ar gyfer 2023/24. Bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf dros dro gwerth £2.217m a £2.159m o fenthyca â chefnogaeth, sy'n dod i gyfanswm o £4.376m. Er mwyn cadw costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ar gyfer y gyllideb refeniw, yn enwedig gyda'r ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido refeniw yn y dyfodol, un o brif egwyddorion y strategaeth hon yw na ddylai rhaglenni cyfalaf fod werth mwy na'r cyllid yma sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio benthyca digefnogaeth ar gyfer cyllido Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor.

**6.2.2** Cynyddu oes hen asedau'r Cyngor â dal i fyny â'r datblygiadau technolegol diweddaraf fydd y flaenoriaeth gyda'r cyllid hwn. Bydd hyn, felly, yn golygu na fydd cyllid sylweddol ar gael ar gyfer prosiectau newydd. O dan y strategaeth hon, dylid ystyried prosiectau newydd dim ond os oes cyllid grant sylweddol ar gael ar gyfer y prosiect, neu os oes modd ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth os ydi'r prosiect yn bodloni gofynion y cod Darbodus o ran gallu cyllido'r costau cyfalaf drwy incwm ychwanegol neu arbedion gwariant / osgoi costau. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf, ond nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy a dylid ystyried hyn dim ond pan fo'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn uwch na'r isafswm a argymhellir. Gellid ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn dros ben i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyllidir drwy grantiau.

**6.2.3** Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, a rhoddir ystyriaeth i fforddiadwyedd wrth lunio'r Strategaeth Gyfalaf, ac mae'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn lleihau ei gostau benthyca drwy wneud y defnydd gorau o'i falensau arian parod er mwyn cyllido gwariant cyfalaf.

## 6.3 Cyllido Gwaith Moderneiddio Ysgolion

**6.3.1** Mae'r Cyngor, ar hyn o bryd, ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), gyda phrosiectau blaenorol Band A yn dod i ben ym mis Ebrill 2023 a Band B yn rhedeg tan 2027.

**6.3.2** Roedd pedwar cam i'r rhaglen yn flaenorol, a nodwyd yn Fandiau A, B, C a CH. Fodd bynnag, mae Bandiau C a Band CH wedi'u diddymu mewn enw. Bydd y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ddiwygiedig yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwelliannau i ysgolion yn y tymor hir, a bydd gofyn i'r Cyngor gyflwyno cynllun naw mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd Cynghorau'n symud i'r cynllun naw mlynedd unwaith y bydd 60% o'u rhaglenni Band B awdurdodedig cyrraedd y cyfnod llunio cytundebau (er mae'n bosib y bydd eithriadau i'r cynllun hwn yn achos awdurdodau unigol).

**6.3.3** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi (MIM) ar gyfer prosiectau gwerth mwy na £15m. Mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat ac mae'r Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (81%). Ni fydd y prosiect MIM yn rhan o raglen gyfalaf y Cyngor a bydd yn dod yn gost i'r Cyngor dim ond ar ôl iddo ddechrau talu ffi rhent.

**6.3.4** Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor un prosiect Band B sydd wedi cael ei gymeradwyo ac sydd wedi cychwyn, sef yr estyniad i Ysgol y Graig, sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2024.

**6.3.5** Tybir y byddai'r holl fenthyca digefnogaeth ac â chefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau newydd PWLB dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**6.3.6** Bydd unrhyw fenthyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CRF) y Cyngor. Bydd hynny, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl DRI blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**6.3.7** Dylid nodi y byddai cyflawni'r ysgolion newydd yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion sy'n cael eu disodli neu eu cau o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Rheoli Asedau.

## 6.4 Ffynonellau Cyllido – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i'r grant hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".

- **Benthyca Digefnogaeth** – Yma eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan y (PWLB) neu o ffynhonnell arall, ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Ar y cyfan, mae prosiectau a gyllidir drwy fenthyca digefnogaeth yn brosiectau sy'n sicrhau arbedion

refeniw, a’r arbedion hyn sy’n cael eu defnyddio i gwrdd â’r costau refeniw ychwanegol sy’n codi o’r benthyciad.

- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy’n cyllido cost prosiect yn llawn neu’n rhannol. Fel arfer, bydd cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf o ran y gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pa bryd y mae’n rhaid ysgwyddo’r gwariant.

- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau gyfrannu o’u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Gan amlaf, bydd y cyfraniadau hyn ar ffurf cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect sy’n cael ei gyllido’n bennaf o grant cyfalaf penodol.

- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio’r cyllid a gynhyrchir drwy werthu asedau i gyfrannu at gyllido’r rhaglen gyfalaf. Fel arfer, bydd derbyniadau o’r fath yn codi o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).

- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy’n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi’r rhaglen gyfalaf.

### 6.5 Effaith gwahanol ffynonellau cyllid cyfalaf

**6.5.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor, gan fod pob grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido’r gwariant cyfalaf. Gellir cael gwahaniaethau o ran amseriad sy’n golygu na fydd grantiau’n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y byddant yn cael eu cario o un flwyddyn i’r nesaf drwy fantolen y Cyngor.

**6.5.2** Yn sgil derbyniadau cyfalaf, trosir asedau dros ben yn arian parod sydd, yn eu tro, yn arwain at greu ased newydd. Yma eto, ychydig iawn o effaith tymor hir a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor, ond fe ddaw adeg pan fydd yr holl asedau dros ben wedi’u gwerthu ac y bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.

**6.5.3** Mae’r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio’r cyllid dros ben ar y CRT (yr hyn sy’n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw’n cael effaith ar Gronfa’r Cyngor.

**6.5.4** Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth y cyllid sy’n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu’r swm sy’n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae’n trosi arian parod dros ben i wneud ased newydd.

**6.5.5** Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael effaith ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) y Cyngor ac mae goblygiadau o hynny, yn ei dro, i’r gyllideb Refeniw gan y bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a’r taliadau llog blynyddol yn fwy.

**6.5.6** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa’r Cyngor, nid yw’r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa’r Cyngor a’r CRT. Mae’r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu neilltuo i’r ddwy gronfa ar sail lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Adolygir y dull neilltuo drwy’r amser i sicrhau mai hwnnw yw’r dull mwyaf teg.

## 6.6 Egwyddorion Cyllido

**6.6.1** Mae’r cyd-destun ariannol ansicr y mae’r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod uchod, ac mae’n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae’r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o’r prif flaenoriaethau i’r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau’r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy’n bosib. Mae’n rhesymol i’r Cyngor geisio cadw’r cynnydd sydd ei angen i’r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol, ond dylid cadw hyn ar lefel sy’n cael ei gyllido trwy’r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.6.2** Ni ddylid ystyried benthyca digefnogaeth (y tu allan i'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) oni bai y gellir lleihau'r gyllideb gwasanaeth perthnasol gan swm sy'n fwy na'r DRI a chostau llog neu i gyllido cyfran y Cyngor o gynllun a gyllidir yn bennaf o grant allanol.

**6.6.3** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a chael cymeradwyaeth iddo. Caiff gwariant cyfalaf ar y CRT ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthyca y gall y CRT eu defnyddio.

**6.6.4** Bydd grantiau penodol sydd wedi'u cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant.

**6.6.5** Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw i gyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a gaiff eu codi ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gyllidir gan fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun.

**6.6.6** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw ar gyfer prosiectau penodol nad ydynt wedi'u defnyddio eto. Defnyddir y cyllid hwn yn ôl yr angen er mwyn caniatáu i brosiectau blaenoriaeth symud yn eu blaen neu i gyllido prosiectau penodol pan fydd y prosiectau hynny'n symud yn eu blaen. Gellir defnyddio'r cyllid i ddarparu cyllid cyfatebol yn ogystal, os bydd cyfle i dderbyn cyllid grant ychwanegol, a bod y cyllid grant hwnnw'n debygol o gael ei golli heb gyllid cyfatebol.

**6.6.7** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu'n cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Mae balans y gronfa wrth gefn hon wedi lleihau dros amser wrth i nifer yr asedau dros ben leihau. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn ffynhonnell cyllido werthfawr ac fe'i defnyddir yn ôl y galw i gyllido prosiectau blaenoriaeth. Dylid nodi y bydd y derbyniadau cyfalaf a fydd yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i werthu ysgolion gwag yn cael eu clustnodi fel cyllid ar gyfer ysgolion newydd os ydi hynny wedi'i nodi yn yr achos busnes, fel arall bydd y derbyniad cyfalaf yn cael ei drin yn yr un modd â derbyniadau cyfalaf cyffredinol ac yn cael ei ddyrannu i brosiectau yn unol â hynny.

**6.6.8** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd sy'n gysylltiedig â'r gronfa gyffredinol fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol, benthyca â chefnogaeth ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu neu gronfeydd wrth gefn cyfalaf sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf awdurdodedig yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw grantiau penodol a dderbynnir. Bydd prosiectau sy'n ymwneud â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu hychwanegu i'r rhaglen gyfalaf yn ôl y galw.

**6.6.9** Bydd yr egwyddor hon yn cael ei defnyddio yn y tymor canol a'r tymor hwy i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

## 6.7 Proffil Cyllido Amcangyfrifiedig 2023/24 i 2025/26

**6.7.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (gan eithrio Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) am y cyfnod 2023/24 i 2025/26 i'w weld yn y tabl isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2023/24 – 2025/26**

| | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,217 | 2,217 | 2,217 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,159 | 2,159 | 2,159 |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Grant dadgarboneiddio | 450 | 450 | 450 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **7,486** | **7,486** | **7,486** |

## 7. Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2023/24

**7.1** Bydd y rhaglen gyfalaf ddrafft am 2023/24 yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r strategaeth gyfalaf hon i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2023 ac i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig, gan gynnwys ffynonellau cyllido. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

**Crynodeb o Raglen Gyfalaf Ddrafft 2023/24**

| | £'000 |
|---|---|
| Cynlluniau 2023/24 a Ddygwyd Ymlaen | 12,373 |
| Adnewyddu / Newid Asedau | 5,682 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | 386 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 5,964 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 13,557 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf 2023/24 a Argymhellir** | **37,962** |
| **Cyllidir gan:** | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 3,410 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Cyffredinol | 2,158 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | 919 |
| Benthyca Digefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | 2,797 |
| Arian Wrth Gefn CRT a Gwarged Mewn Blwyddyn | 9,221 |
| Benthyca Digefnogaeth - CRT | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 |
| Grantiau Allanol | 6,584 |
| Cyllid 2023/24 a Ddygwyd Ymlaen | 12,373 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2023/24** | **37,962** |

### 7.2 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf Tymor Hwy

**7.2.1** Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn cael ei gweld fel dogfen dros dro ond bydd gwaith yn cychwyn, unwaith y bydd cynllun corfforaethol y Cyngor wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo, i baratoi neu ddiweddaru'r strategaethau a fydd yn cyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor. Yna, bydd y strategaethau amrywiol hyn yn dylanwadu ar strategaeth gyfalaf tymor hwy y Cyngor a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Gyfalaf 2024/25.

## 8 Strategaeth Fuddsoddi nad yw'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

**8.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a drafodir isod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn dal nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli'r trysorlys. Dyma'r eiddo buddsoddi y mae'r Cyngor yn ennill incwm rhent ohonynt. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw tymor hir i'r Cyngor. Roedd tua 70 eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2022, oedd yn werth £6.2m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2023/24, casglwyd £344k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Gwariwyd £185k ar gynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £164k o incwm rhent ac incwm arall. O ran cynlluniau ar gyfer yr eiddo buddsoddi yn y dyfodol, bydd yr adeiladau'n parhau i gael eu cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, adeiladwyd cyfadeilad unedau diwydiannol newydd yn ddiweddar ac mae'n weithredol yn Llangefni. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar godi Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r prosiect hwn wedi'i ymestyn i godi unedau ychwanegol yng Nghaergybi a'r cynllun newydd ar gyfer unedau ychwanegol yn Llangefni, fel y nodir yn y Cynllun Trosiannol.

**8.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y grym i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgaredd economaidd o fewn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach nag ar y cynlluniau a nodir uchod, ond mae defnyddio'r pwerau hyn yn parhau i fod yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor wario ar eiddo buddsoddi er mwyn cyflawni amcanion allweddol y Cyngor neu i fanteisio ar unrhyw gyllid allanol sylweddol a allai ddod ar gael.

## 9 Benthyca a Rheoli'r Trysorlys

**9.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli'r Trysorlys yn rhoi'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod benthyca i gyllido rhaglen gyfalaf 2023/24 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

**9.2** Mae Atodiad 11 DSRhT 2024/25 yn cyflwyno'r dangosyddion darbodus a thrysorlys am y cyfnodau 2021/22 i 2025/26, sy'n helpu i benderfynu a yw cynlluniau benthyca yn fforddiadwy.

**9.3** Mae cymhareb costau cyllido i ffrydiau refeniw net yn fesur o fforddiadwyedd. Mae'r gymhareb amcangyfrifedig o gostau cyllido i ffrydiau refeniw net fel a ganlyn:-

| | **Cronfa'r Cyngor** | **CRT** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|
| 2021/22 (Gwirioneddol) | 4.50% | 9.12% | 5.04% |
| 2023/24 (Rhagamcanol) | 2.81% | 18.41% | 4.56% |
| 2023/24 (Rhagamcanol) | 2.23% | 21.14% | 4.25% |
| 2024/25 (Rhagamcanol) | 2.95% | 26.12% | 5.46% |
| 2025/26 (Rhagamcanol) | 3.10% | 29.36% | 6.06% |

Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy o ran y goblygiadau refeniw.

**9.4** Yn 2018/19, adolygodd y Cyngor ei bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a llwyddodd i ôl-ddyddio'r newidiadau. Cynlluniwyd yr adolygiad o'r polisi i sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad y newid hwn oedd iddo nodi gorddarpariaeth mewn blynyddoedd blaenorol a gellir defnyddio'r orddarpariaeth hon yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn parhau i fod yn fforddiadwy. Cynigir newid pellach i'r Polisi DRI i symud i ddull blwydd-dal ar gyfer cyfrifo'r DRI blynyddol a godir.

**9.5** Nod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, rhaid cynnal digon o falansau arian parod i ddiwallu anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

**9.6 Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys, 3 Chwefror 2023**

| Banc | Swm a Fuddsoddwyd | Cyfradd Llog |
|---|---:|---:|
| Santander | £7,500,000 | 3.24% |
| Nationwide | £7,500,000 | 3.03% |
| NatWest | £21,634,826 | 0.80% - 2.70% |
| Goldman Sachs | £7,500,000 | 3.83% |
| Awdurdodau Lleol | £10,000,000 | 3.06% - 3.80% |
| **Cyfanswm** | **£54,134,826** | |

Caiff buddsoddiadau eu hadolygu wrth iddynt aeddfedu a bydd y Tîm Rheoli'r Trysorlys yn penderfynu p'un ai a ddylid parhau i fuddsoddi â'r un sefydliad am gyfnod penodol pellach, buddsoddi â gwahanol sefydliad sydd wedi'i nodi yn y DSRHT neu ddychwelyd yr arian yn ôl i gyfrif banc cyffredinol y Cyngor. Mae'r penderfyniad yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, yn cynnwys y cyfraddau llog a ragwelir ac anghenion arian parod y Cyngor, ac mae lefel ac amseriad y gwariant cyfalaf yn dylanwadu'n sylweddol ar hyn. Mae hyn yn cadarnhau'r cyswllt rhwng y strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf blynyddol, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a phenderfyniadau buddsoddi unigol.

# 10. Risgiau Posib a Gyfyd o'r Strategaeth Gyfalaf

**10.1** Yr her a'r risg fwyaf yw'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer refeniw a chyfalaf. Mae'r Cyngor wedi tanwario'n sylweddol yn 2021/22, ac mae'n debygol o danwario yn 2023/24 sy'n helpu i roi rhwyd ddiogelwch a ddangosir gan y buddsoddiadau iach mewn banciau a ddangosir uchod. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn costau yn y diwydiant adeiladu dros y 12 mis diwethaf yn golygu bod prosiectau cynlluniedig yn llai fforddiadwy ac mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar y cyllid prin sydd ar gael.

**10.2** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllidebau a cholli cyllid grant sylweddol a dderbynnir ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd, mae perygl na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn dod i law fel y nodir yn y strategaeth. Er hyn, dylid nodi bod y Cyngor wedi cyflwyno cynigion llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad, sydd wedi disodli'r cyllid Ewropeaidd. Bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol os bydd unrhyw newid yn y cyllid.

**10.3** Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnal asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen adnewyddu yn ddigonol a bod safon yr asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Efallai na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy, neu efallai bydd angen tynnu prosiectau newydd eraill oddi ar y rhaglen.

**10.4** Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhaglen mor uchelgeisiol a sylweddol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio'r rhaglenni ar ôl Band B, er y bydd y cynnydd yn y cronfeydd arian parod defnyddiadwy wrth gefn yn helpu gyda buddsoddi mewn ysgolion.

**10.5** Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog sylweddol bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac nid yw unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn cael effaith arnynt. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd sydyn mewn cyfraddau llog gael effaith ar fforddiadwyedd prosiectau yn y dyfodol a gyllidir drwy fenthyciadau. Amlinellir camau yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n lliniaru'r risg hon i ryw raddau. Bydd y codiadau graddedig bach presennol yn y Gyfradd Sylfaenol yn cynyddu cyfraddau benthyca y PWLB er, ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd ymhell islaw llawer o'r cyfraddau sefydlog ar fenthyciadau cyfredol.

## 11. Gwybodaeth a Sgiliau

**11.1** Mae gan dîm cyfrifo Adnoddau bedwar cyfrifydd cymwys, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n gofalu am y rhaglen gyfalaf a swyddogaeth Rheoli’r Trysorlys. Mae yna hefyd dechnegydd cyfrifo cymwys sydd â phrofiad sylweddol mewn cyfalaf a rheoli’r trysorlys. Mae'r tîm yn mynd ar gyrsiau CIPFA ar gyfalaf a rheoli’r trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn o'r maes cyfrifyddu arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o weithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynd i aildendr ar hyn o bryd yn unol â rheolau caffael. Mae penderfynwyr y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfalaf a rheoli’r trysorlys a chynigir hyfforddiant rheoli’r trysorlys i'r Aelodau. Amlinellir y trefniadau llywodraethu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys.

**Atodiad 2**

# Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2023/24

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24 Cynlluniau ymrwymiedig dygwyd ymlaen** | | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 50 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Rhan II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 687 | 687 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penrhos Rhan III | 2,400 | 2,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Codi'r Gwastad (amryw o brosiectau) | 9,236 | 9,236 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cynlluniau ymrwymiedig 2023/24** | **12,373** | **12,373** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion | 600 | 0 | 0 | 600 | 0 | 0 | 0 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,500 | 0 | 1,942 | 558 | 0 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 540 | 0 | 332 | 0 | 0 | 0 | 208 |
| Asedau TG | 292 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 292 |
| **Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | **5,682** | **0** | **3,024** | **2,158** | **0** | **0** | **500** |
| | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | | | | | | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | 286 | 0 | 286 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd – Cyllid Cyfatebol | 100 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | **386** | **0** | **386** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | | | | |
| Ysgol y Graig | 5,964 | 2,248 | 0 | 919 | 2,797 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **5,964** | **2,248** | **0** | **919** | **2,797** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL** | **24,405** | **14,621** | **3,410** | **3,077** | **2,797** | **0** | **500** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | |

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC | 5,350 | 3,586 | 0 | 0 | 0 | 1,764 | 0 |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu | 8,207 | 750 | 0 | 0 | 0 | 7,457 | 0 |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **13,557** | **4,336** | **0** | **0** | **0** | **9,221** | **0** |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2023/24** | **37,962** | **18,957** | **3,410** | **3,077** | **2,797** | **9,221** | **500** |